Annwyl Gwsmer,

## Newidiadau i'ch cangen

**Swyddfa Bost Port Talbot**
**139 Heol yr Orsaf, Port Talbot, SA13 1NG**

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi ein bod yn newid y ffordd rydym yn rhedeg Swyddfa Bost Port Talbot. Cyn bo hir bydd y gangen yn cael ei rhedeg yn y tymor byr gan bartner mân-werthu masnachfraint annibynnol, ZCO Cyfyngedig (ZCO), o'r adeilad presennol, gan gynnig yr un dewis eang o wasanaethau, ac oriau agor estynedig ar foreau Mawrth. Rhagwelwn y bydd y newid yn digwydd erbyn mis Tachwedd 2025.

Yn ystod y misoedd dilynol, byddwn yn ystyried y trefniadau a'r adeilad cywir dros yr hir dymor ar gyfer cangen Swyddfa'r Post Port Talbot. Gallai hyn fod yn yr adeiladau cyfredol neu mewn safle arall gerllaw, naill ai gyda ZCO neu bartner masnachfraint hirdymor gwahanol. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw symud i leoliad newydd yn digwydd cyn gwanwyn 2026 a byddai'n amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus lleol yn unol â'n Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned.

**Pam ydym yn gwneud y newid hwn?**

Cyhoeddodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn ddiweddar, fel rhan o'i ymrwymiad i gynnig "Bargen Newydd i Bostfeistri", ei fod yn symud i rwydwaith â masnachfraint lawn erbyn hydref 2025. Mae dros 99% o rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei weithredu eisoes drwy fasnachfraint ac yn cael ei redeg gan bartneriaid mân-werthu a gafodd eu dewis yn ofalus. Rydym yn ffyddiog y bydd hyn yn creu dyfodol cynaliadwy hirdymor i swyddfeydd post mewn cymunedau ledled y DG, gan gynnwys cangen Port Talbot.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybodaeth i gwsmeriaid a byddwn yn rhoi diweddariad pellach mewn canghennau i gadarnhau dyddiad y newid hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd, er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn gywir,

*Martin Edwards*

**Martin Edwards**
**Cyfarwyddwr Strategaeth a Dosbarthu Rhwydwaith**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Mae'n dda gwybod

- Bydd "Bargen Newydd i Bostfeistri" Swyddfa'r Post yn rhoi cynnydd o £250m i dâl blynyddol postfeistri erbyn 2030. I gael gwybod mwy, ewch i wefan corfforaethol Swyddfa'r Post, (*corporate.postoffice.co.uk* a chwilio am *postmaster new deal*).
- Fel arfer mae canghennau masnachfraint yn cynnig oriau agor hirach yn ogystal â gwell dewis mân-werthiant mewn cymhariaeth â swyddfa bost annibynnol, gan ddarparu gwell cyfleustra a hygyrchedd i gwsmeriaid a busnesau.
- Rhaid i unrhyw bartner mân-werthu masnachfraint, gan gynnwys ZCO Cyf, fod ag enw da am lwyddiant yn rhedeg gwasanaethau Swyddfa'r Post, neu fân-werthiant tebyg sy'n ymateb i ofynion cwsmeriaid gan sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaeth rhagorol i'r gymuned.
- Yn debyg i unrhyw newid arfaethedig i gangen, rydym yn deall fod cwsmeriaid yn aml yn bryderus ynghylch effaith hyn ar y staff. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd ein staff yn cael cefnogaeth lawn drwy gydol y broses hon.
- Bydd pawb a gyflogir i weithio yn Swyddfa Bost Port Talbot yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf, a bydd y staff yn cael hyfforddiant parhaus ynghylch yr holl wasanaethau, yn ogystal â materion gweithredol a materion yn ymwneud â gwasanaeth yn gyffredinol.
- Er ein bod wedi gwneud ein penderfyniad ac felly nid ydym yn gwahodd adborth am y newid hwn, bydd unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni gwblhau ein cynlluniau.
- Caiff posteri eu gosod nawr yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newid.

## Crynodeb gwybodaeth am Swyddfa Bost Port Talbot

**Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Mawrth | 09:30 – 17:30 |
| Dydd Mercher | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Iau | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Gwener | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 – 12:30 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Mawrth | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Mercher | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Iau | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Gwener | 09:00 – 17:30 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 – 12:30 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Gwasanaethau yn y gangen hon**

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd.

**Mannau Gwasanaeth**

Bydd yr un mannau gwasanaeth ar gael o hyd.

**Mynediad**

Bydd y trefniadau'n dal yr un fath.

**Manwerth**

Deunydd ysgrifennu.

| | |
|---|---|
| **Mis y newid arfaethedig** | Tachwedd 2025 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn* ***<u>Hysbysu</u>*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd[1]/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age Uk, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

<u>Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:</u>
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.